| Enw'r Polisi: Polisi ar Berthnasoedd Personol | | Rhif y Polisi: P1314- 499 |
|---|---|---|
| Perchennog y Polisi: P J Cox | | |
| Dyddiad Cyhoeddi: Gorffennaf 2001 | Dyddiad Adolygu: Ionawr 2015 | |
| Deddfwriaeth/arweiniad allanol perthnasol os yw'n gymwys: Ddim yn Berthnasol | | |
| Dogfennau sy'n cael eu disodli (*dyfynnwch Rif P neu L*): Côd Ymddygiad ar Berthnasoedd Personol (L1377) | | |

Datganiad Polisi

Mae Prifysgol Abertawe'n gwerthfawrogi perthnasoedd proffesiynol da rhwng cydweithwyr a rhwng staff a myfyrwyr.

## Perthnasoedd rhwng Aelodau Staff a Myfyrwyr

Mae perthnasoedd proffesiynol da rhwng staff a myfyrwyr yn dibynnu i raddau helaeth ar ymddiriedaeth a hyder ar y naill ochr a'r llall a gellir eu peryglu os oes perthnasoedd teuluol agos rhwng staff a myfyrwyr, os ydynt yn ffurfio perthnasoedd rhywiol/rhamantus â myfyrwyr, neu os yw myfyrwyr yn ffrindiau i staff neu os oes cysylltiadau busnes rhyngddynt.

Dylai ymddygiad staff yn yr amgylchiadau hyn fod yn seiliedig ar yr egwyddorion canlynol:

(a) dylai aelodau staff gydnabod cyfrifoldeb personol a moesegol i ddiogelu buddion myfyrwyr, i barchu'r ymddiriedaeth sydd ynghlwm wrth y berthynas rhwng staff a myfyrwyr ac i dderbyn y cyfyngiadau a'r rhwymedigaethau sy'n rhan gynhenid o'r cyfrifoldeb hwnnw;

(b) dylai staff gydnabod y codir pryderon moesegol a phroffesiynol wrth ffurfio perthynas academaidd â myfyrwyr sy'n aelodau teulu agos, yn ffrindiau neu'n gysylltiadau busnes;

(c) dylai staff gydnabod bod dechrau perthynas rywiol/ramantus â myfyriwr yn peri anawsterau difrifol sydd wedi'u gwreiddio mewn pŵer anghyfartal, yn ogystal ag achosi problemau wrth gynnal y ffiniau rhwng bywyd proffesiynol a phersonol. Gall perthnasoedd o'r fath effeithio'n niweidiol ar yr amgylchedd dysgu ac addysgu ar gyfer myfyrwyr a chydweithwyr eraill hefyd.

Os oes gan aelod staff berthynas deuluol, perthynas rywiol/ramantus neu fath arall o gysylltiad, boed yn ariannol neu fel arall, â myfyriwr y mae gan yr aelod staff gyfrifoldeb proffesiynol (neu bydd yn derbyn cyfrifoldeb) amdano, mae gan yr aelod staff gyfrifoldeb i hysbysu Pennaeth y Coleg, yn gyfrinachol, cyn gynted â phosib. Dylai Pennaeth y Coleg dynnu'r fath gyfrifoldebau yn ôl o'r aelod staff. Mae hyn er lles y ddau barti. Os yw'r aelod staff dan sylw'n Bennaeth Coleg, dylai hysbysu'r Cofrestrydd a'r Prif Swyddog Gweithredol yn gyfrinachol a bydd yr unigolyn hwnnw'n cynghori'r aelod staff ar y camau gweithredu priodol: fel arfer, bydd hyn yn golygu dirprwyo cyfrifoldeb am oruchwylio/asesu'r myfyriwr i aelod staff arall. Y nod yw sicrhau uniondeb y broses astudio ac asesu ar gyfer y myfyriwr ac osgoi unrhyw gwestiynau ynghylch tuedd nes ymlaen. Os nad yw'r awdurdod perthnasol yn cael ei hysbysu, gellir cymryd camau disgyblu.

**Perthnasoedd rhwng Aelodau Staff**

Mae perthnasoedd proffesiynol da rhwng cydweithwyr yn dibynnu i raddau helaeth ar ymddiriedaeth a hyder rhwng y naill ochr a'r llall a gellir eu peryglu os oes perthnasoedd teuluol agos rhwng aelodau staff, os ydynt yn ffurfio perthnasoedd rhywiol/rhamantus neu gysylltiadau busnes.

Dylai ymddygiad aelodau staff yn yr amgylchiadau hyn fod yn seiliedig ar yr egwyddorion canlynol:

(a) dylai aelodau staff gydnabod cyfrifoldeb personol a moesegol i barchu'r ymddiriedaeth sydd ynghlwm wrth berthnasoedd gwaith â chydweithwyr ac i dderbyn y cyfyngiadau a'r rhwymedigaethau sy'n rhan gynhenid o'r cyfrifoldeb hwnnw;
(b) dylai aelodau staff gydnabod bod gweithio gydag aelodau teulu agos, neu gysylltiadau busnes yn codi pryderon moesegol a phroffesiynol;
(c) dylai aelodau staff gydnabod bod perthynas rywiol/ramantus â chydweithiwr yn peri problemau moesegol a phroffesiynol wrth gynnal y ffiniau rhwng bywyd proffesiynol a phersonol.

Dylai aelodau staff sicrhau nad yw perthnasoedd ariannol, perthnasoedd teuluol agos, perthnasoedd rhywiol/rhamantus neu gysylltiadau agos o unrhyw fath arall yn rhoi mantais neu anfantais i aelodau staff neu unrhyw unigolion eraill; nad ydynt yn tanseilio perthnasoedd gweithio cytûn ac nad ydynt yn peryglu uniondeb polisïau a gweithdrefnau Prifysgol Abertawe, gan gynnwys ei pholisi ar gyfle cyfartal.

Lle bo'r fath berthnasoedd yn bodoli neu'n cael eu ffurfio rhwng aelodau staff, cyfrifoldeb y ddau unigolyn yw ymdrin yn briodol ag unrhyw wrthdaro rhwng buddiannau. Os oes angen cyngor ar aelodau staff, dylent gysylltu â'u Pennaeth Coleg/Adran neu'r Cofrestrydd a'r Prif Swyddog Gweithredol.

O ran yr uchod, dylai aelodau staff sylwi ar y canlynol:

(a) os oes gan aelod staff berthynas ariannol, deuluol agos, rywiol/ramantus, neu gysylltiad agos o unrhyw fath ag ymgeisydd am gyflogaeth ym Mhrifysgol Abertawe (ni waeth sut mae'r penodiad hwnnw wedi'i ariannu), mae'n ofynnol i'r aelod staff hwnnw hysbysu'r Pennaeth Coleg/Adran neu awdurdod perthnasol arall am y berthynas. Bydd yr awdurdod hwnnw'n sicrhau nad yw'r aelod staff yn rhan o'r broses benodi.
(b) Os oes gan aelod o staff Prifysgol Abertawe berthynas ariannol, deuluol agos, perthynas rywiol/ramantus neu berthynas agos arall ag aelod arall o staff y Brifysgol, mae rhwymedigaeth gan y ddau i hysbysu Pennaeth y Coleg/Adran os yw'n debygol y bydd y naill neu'r llall mewn sefyllfa i effeithio ar ganlyniad gweithdrefn annibynnol y gall y llall fod yn rhan ohoni. Felly, ni ddylai un parti mewn perthynas weithredu mewn ffordd a fyddai'n effeithio ar ganlyniad ar gyfer y llall, er enghraifft fel aelod o Bwyllgor neu Banel mewn materion sy'n ymwneud â chyfnod prawf, dyrchafiad neu arfarniad neu mewn cwynion neu faterion disgyblu. Pan fydd Pennaeth y Coleg/Adran wedi'i hysbysu am y berthynas, bydd rhaid iddo weithredu i newid aelodaeth y Pwyllgor neu'r Panel. Os yw un o'r aelodau staff dan sylw'n Bennaeth Coleg/Adran, dylai hysbysu'r Cofrestrydd a'r Prif Swyddog Gweithredol a fydd yn newid aelodaeth y Pwyllgor neu'r Panel.
(c) Os oes gan aelod o staff Prifysgol Abertawe berthynas ariannol, deuluol agos, rywiol/ramantus neu berthynas agos arall ag aelod arall o staff y Brifysgol, mae rhwymedigaeth gan y ddau i hysbysu Pennaeth y Coleg/Adran os yw'n debygol y bydd y naill neu'r llall mewn sefyllfa i effeithio ar ganlyniad unrhyw broses a allai

arwain at fantais neu ddyrchafiad proffesiynol i'r naill neu'r llall. Pan gaiff Pennaeth y Coleg/Adran ei hysbysu am y berthynas, bydd rhaid iddo weithredu i sicrhau nad oes unrhyw fantais annheg. Os yw un o'r aelodau staff dan sylw yn Bennaeth Coleg/Adran, dylai hysbysu'r Cofrestrydd a'r Prif Swyddog Gweithredol a fydd yn gweithredu i sicrhau nad oes unrhyw fantais annheg.

ch) Os oes perthnasoedd ariannol, teuluol agos, rhywiol/rhamantus rhwng aelodau staff yn yr un adran, disgwylir i'r ddau aelod staff hysbysu Pennaeth y Coleg/Adran cyn gynted ag y dônt yn ymwybodol o unrhyw wrthdaro posib fel y gellir lleihau ei effaith. Os yw Penaethiaid Coleg/Adran mewn perthynas o'r fath, dylent hysbysu'r Cofrestrydd a'r Prif Swyddog Gweithredol.

Disgwylir i Benaethiaid Coleg/Adran neu awdurdodau perthnasol eraill ymdrin â'r holl faterion o'r fath yn gyfrinachol ar bob adeg a cheisio dod o hyd i ffyrdd o osgoi gwrthdaro.

Dylai aelodau staff fod yn ymwybodol y gall torri'r côd hwn arwain at gamau disgyblu.

**Perthnasoedd nad ydynt yn gydsyniol:** Os yw myfyriwr neu aelod staff yn rhan neu wedi bod yn rhan o berthynas rywiol/ramantus ag aelod staff ac os nad yw'n ystyried bod sail y berthynas honno'n wirioneddol gydsyniol, bydd ganddo'r hawl i gwyno dan bolisi aflonyddu'r Brifysgol.

Diffiniadau o dermau Adnoddau Dynol a ddefnyddir yn y polisi hwn:

Gall cyfrifoldebau proffesiynol staff am fyfyrwyr fod yn academaidd, yn weinyddol yn yr ystyr ehangach, neu'n gynghorol.

Gweithdrefnau Cefnogol/Dogfennau Arweiniad/Codau Ymarfer - gyda rhifau P a dolenni: